

# MANTELL

NEWYDDLLEN MUDIADAU GWIRFODDOL GWYNEDD

Rhifyn 51  
Rhagfyr 2010

## Croeso i griw Global Xchange

### CYNNWYS

O Mantell	2
Iechyd, Gofal a Lles Cymdeithasol	3
Gwirfoddoli Ymysg Ieuenctid	4
Canolfan Wirfoddoli	5
Plant a Phobl Ifanc	6
Cyfleoedd Ariannu Y Porth Ymgysylltu	7
Digwyddiadau a Hyfforddiant	8



Ddechrau Hydref, daeth criw o bobl ifanc Global Xchange yma i Wynedd - 8 ohonynt

o Brydain a 10 o Namibia. Byddant yn aros ac yn gwirfoddoli gyda mudiadau yn lleol yng Ngwynedd hyd at ddiwedd Rhagfyr cyn mynd ymlaen i Namibia am 3 mis ddechrau'r flwyddyn. Mae'r cynllun yn galluogi pobl ifanc (18-25) o wahanol wledydd i gael profiad unigryw i gydweithio, datblygu sgiliau a rhannu gwerthoedd a gwneud gwahaniaeth ymarferol ble mae ei angen yn y gymuned leol. Gobeithio eu bod yn mwynhau eu cyfnod yma yng Ngwynedd.

## Cymdeithas Spina Bifida a Hydroceffalws

Mae Cymdeithas Spina Bifida a Hydroceffalws yn credu bod pawb sydd â spina bifida neu hydroceffalws â'r gallu i gael y mwyaf o fywyd. Drwy ymgyrchu, cefnogi, rhoi gwybodaeth ac ymchwilio, mae'r Gymdeithas yn parhau i helpu i hybu dewis unigol, gwella ansawdd bywyd a hybu gallu y tu hwnt i anabledd.

Mae ASBAH CYMRU wedi diogelu cyllid i'n galluogi i ddatblygu prosiect gwirfoddoli cyffrous ac unigryw ledled Gogledd Cymru a Gogledd Powys (er rydym hefyd yn awyddus i glywed gennych os ydych yn byw mewn rhannau eraill o Gymru ac eisiau cymryd rhan).

Os hoffech helpu, ceir sawl cyfle i chi gyfranogi a gwneud gwahaniaeth! Dyma rai pethau yr ydym angen

cymorth i'w datblygu: sefydlu grwpiau lleol i gefnogi cymheiriaid a gweithgareddau cymdeithasol, dosbarthu gwybodaeth, cynrychioli ASBAH mewn grwpiau partneriaeth a rhwydwaith, codi arian, a threfnu neu helpu mewn digwyddiadau codi proffil neu godi arian.

Os oes gennych ddi-ddordeb a gydag ychydig o oriau rhydd bob wythnos, yn y lle cyntaf a wnewch chi anfon e-bost at: [carolynb@asbah.org](mailto:carolynb@asbah.org) neu ffonio:

**01492 518653** / symudol

**07738915349**. Bydd hyfforddiant amrywiol ar gael am ddim.

Cefnogir y prosiect gan Gronfa Gwirfoddoli yng Nghymru. I gael manylion pellach am y cynllun hwn ewch i: <http://tinyurl.com/33fjtp7>

Hefyd ewch i'n gwefan genedlaethol [www.asbah.org](http://www.asbah.org) am wybodaeth bellach am waith ASBAH.

**Mwy o wybodaeth ynghyd â'r newyddion diweddaraf i'w gael ar ein gwefan!**

**STAFF MANTELL  
GWYNEDD**

**CAERNARFON**

**Prif Swyddog:** Bethan Russell Williams

**Tim Gwasanaethau**

**Hwylusydd Iechyd a Gofal Cym:**

Sioned Llwyd Larsen

**Swyddog Grantiau a Chefnogaeth:**

Delyth Vaughan

**Hwylusydd Plant a Phobl Ifanc:**

Carwyn Humphreys

**Cyflynydd Trydydd Sector:**

Medwyn Williams

**Tim Cyllid a Gweinyddol**

**Dirprwy Brif Swyddog a Phennaeth**

**Tim Cyllid a Gweinyddu:**

Ceren Williams

**Swyddog Gweinyddol:**

Bronwen Rowlands

**Cynorthwy-ydd Gweinyddol:**

Tracy Lynne Rotheram

**Tim Canolfan Wirfoddoli**

**Cyflynydd Gwirfoddoli:**

Rhianon Jones

**Swyddog Gwirfoddoli:**

Iola Till

**Swyddog Gwirfoddoli Ieuenctid:**

Mirain Roberts

**Swyddog Porth Ymgysylltu:**

Carys Williams

**DOLGELLAU**

**Tim Gwasanaethau**

**Cyflynydd Gwirfoddolwyr Iechyd:**

Llinos Alun

**Tim Cyllid a Gweinyddol**

**Cynorthwy-ydd Gweinyddol:**

Ellen ap Dafydd

**Tim Canolfan Wirfoddoli**

**Swyddog Gwirfoddoli:**

Ann Angharad Fleming

Nodyn gan y **Prif Swyddog**



Dyma ddiwedd blwyddyn arall wedi cyrraedd. Mae'n debyg ein bod wedi dechrau gweld effaith y dirwasgiad yn y sir ond y gred

gyffredinol yw bod yr amser mwyaf heriol yn dal o'n blaenau dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r esgid yn barod yn gwasgu yn y sector breifat, mae hynny yn amlwg iawn yn yr ardal yma, ond tybiaf y gwelwn doriadau enfawr yn y sector gyhoeddus a does wybod pa effaith y caiff hyn ar wasanaethau cyhoeddus dros y blynyddoedd nesaf. Mae un peth yn sicr iawn, mae toriadau cyhoeddus yn cael effaith uniongyrchol ar y Trydydd Sector ac mae'n anorod y bydd colledion sylweddol i'w gweld yn y trydydd sector fel ymhob sector arall. Yn wyneb hyn oll, ac yn addas iawn mi dybiaf, MENTRO oedd thema ein Cyfarfod a'n Cynhadledd Flynyddol eleni. Comisiynu gwasanaethau cyhoeddus yw thema fawr pob awdurdod lleol ar y funud, ac os yw'r Trydydd Sector am fanteisio ar rhai o'r cyfleoedd ddaw yn sgil y dirwasgiad yna MENTRO fydd raid.

Croesawyd John Bennett atom i'n Cyfarfod Blynyddol eleni - Prif Weithredwr y Glymblaid Mentrau Cymdeithasol yng Nghymru. Dangosodd John, trwy ei gyflwyniad cywrain, bod ysbryd ac egwyddorion mentro'r un fath ble bynnag yr ydym yn y byd. Rhoddodd enghreifftiau o fentrau llwyddiannus yng Nghymru, yn Asia ac yn Melbourne. Ategwyd ei neges gan Alun Jones, Prif Weithredwr Menter a Busnes.

Yr un oedd y neges o bob cyfeiriad sef bod cyfleoedd gwirioneddol i'r Trydydd Sector fedru darparu gwasanaethau dros y blynyddoedd nesaf a rhoddwyd pwyslais mawr ar effeithlonrwydd y sector o ran darparu ac ar y sector fel darparwr creadigol. Diwrnod gwerth chweil! Ers rhifyn diwethaf Mantell gwelwyd croesawu Cynhadledd Gwirfoddoli Cymru i'r Galeri i Gaernarfon a

phleser oedd cadeirio'r diwrnod. Croesawyd Dafydd Wigley atom fel siaradwr gwadd y dydd a rhoddodd yntau bwyslais ar bwysigrwydd y sector a phwysigrwydd gwirfoddoli dros y blynyddoedd nesaf. Cafwyd cyflwyniadau a gweithdai ardderchog trwy'r dydd ond, i mi, prif ffocws ac uchafbwynt y dydd, oedd Grwp Cymunedol Blaen Garw yn siarad am eu profiad o greu "Time Bank" gwirfoddoli. Mae'r hyn maent wedi eu cyflawni yno yn wirioneddol anhygoel. Mewn ardal ble gwelwyd diwedd ar ddiwydiant trwm ar ôl yr ail ryfel byd ac yna diweithdra a thlodi sylweddol yn dilyn cau'r pyllau glo mi welwyd hefyd griw o bobl yn dod at ei gilydd ac yn creu canolfan ar gyfer datblygiad cymunedol gyda'r ffocws ar wirfoddoli. Bellach mae ganddynt nid yn unig y neuadd gyda'r awdutorium ble cynhelir lluo amrywiol weithgareddau cymunedol ond hefyd caffu cymunedol, a nifer fawr o brosiectau cymunedol eraill, llawer o'r gweithgaredd gyda'r ffocws ar bobl ifanc ond mae yna rywbeth ar gyfer pawb yno. Dyma'r math o weithgaredd sydd yn goroesi dirwasgiad economaidd ac yn dangos fod ysbryd cymunedol, creadigrwydd a chydweithio, a hynny gyda gwirfoddoli yn sylfaen i'r cyfan, yn gallu golygu datblygu sylweddol hyd yn oed mewn cyfnod o ddirwasgiad. Mae yma wers i ni, ac i'r byd i gyd. Ni lwyddodd y dirwasgiad i ladd ysbryd y bobl ym Mlaen Garw, ond, yn hytrach, bu yn fodd i ddeffro'r ysbryd mentrus ynddynt. Dyma'r union ysbryd sydd ei angen arnom ni rŵan yn wyneb y bygythiadau a wynebwn dros y blynyddoedd nesaf.

Ar ddiwedd blwyddyn fel hyn hoffwn ddiolch yn ddiffuant iawn i holl gefnogwyr Mantell Gwynedd, yn aelodau ac yn bartneriaid. Diolchaf yn arbennig i holl aelodau'r Bwrdd Rheoli am eu cefnogaeth, eu cydweithio ac am barhau yn driw i'r sector. Diolch hefyd i holl staff gweithgar ac ymroddedig Mantell Gwynedd sydd yn cyfrannu at lwyddiant y cwmni.

Gyda dymuniadau gorau i bob un ohonoch am flwyddyn ffyniannus a heddychlon.

**Bethan**

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn gwybodaeth i rifyn nesaf o Mantell yw **21 Ionawr 2011**.

Danfongwch neu e-bostiwch unrhyw wybodaeth at **Ellen ap Dafydd**,

Swyddfa Mantell Dolgellau e-bost:

**EllenapDafydd@mantellgwynedd.com**  
Ffôn **01341 422 575**

## CYNGOR IECHYD CYMUNED BETSI CADWALADR



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Betsi Cadwaladr  
University Health Board

Enw eich corff gwarchod iechyd annibynnol yng Ngogledd Cymru yw Cyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr (CIC). Mae Cyngorau Iechyd Cymuned yn fudiadau sy'n cynrychioli buddiannau cleifion, eu gofalyr a'u perthnasau yn ogystal â buddiannau'r cyhoedd yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Cred Cyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr (CICBC) mai'r cyhoedd a defnyddwyr y gwasanaeth iechyd yw'r arbenigwyr am eu hiechyd a'u lles eu hunain.

Gall CIC gynnig:

- CYNGOR annibynnol rhad ac am ddim am wasanaethau iechyd lleol;
- CEFNOGAETH bersonol a chyngor rhad ac am ddim os ydych eisiau gwneud CWYN am wasanaethau iechyd.

Rhaid i'r GIG ymgynghori â CIC am newidiadau mewn gwasanaethau lleol a chenedlaethol ac mae Cyngor Iechyd Cymuned yn gwneud yn sicr fod eich profiadau chi o'r gwasanaethau - boed hynny yn yr ysbyty, ym meddygfa'r Meddyg Teulu, y deintydd, fferyllfa, cartref gofal neu mewn man arall - yn cyfrif.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Betsi Cadwaladr CHC ar **01341 422236** neu [pat@nwwaleschc.org.uk](mailto:pat@nwwaleschc.org.uk) neu ewch i'w gwefan ar [www.communityhealthcouncils.org.uk/betsicadwaladr](http://www.communityhealthcouncils.org.uk/betsicadwaladr)

## PROSIECT CYNNWYS

"Yn galw defnyddwyr gwasanaeth a gofalyr Gwynedd ac Ynys Môn". Ydych chi'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl oedolion neu oes gennych chi gysylltiad â nhw?

Mae'r prosiect yma'n cynnwys defnyddwyr gwasanaeth a gofalyr wrth gynllunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau iechyd meddwl oedolion. Mae hwn yn wasanaeth annibynnol ac mae gwybodaeth cleientiaid yn gyfrinachol.

Mae Lucy (Cydllynydd y Prosiect) a Paul (Gweithiwr Prosiect) yn cefnogi defnyddwyr gwasanaeth a gofalyr drwy:

- Gynnal cyrsiau anwytho a hyfforddiant ar gyfer gweithgareddau cynnwys
- Gynnig gwybodaeth a chefnogaeth
- Ad-dalu treuliau lle bo hynny'n gymwys
- Newyddlenni a chyfarfodydd rhwydwaith

Mae Cynnwys am ddatblygu ymwybyddiaeth a chysylltiadau yn Ne Gwynedd.

Am fwy o wybodaeth neu i fynegi eich diddordeb, ffoniwch **Lucy** neu **Paul** ar **01248 363451**

## Gofal Croesffyrdd Gogledd Cymru

Mae Gofal Croesffyrdd Gogledd Cymru yn awyddus iawn i weithio ar y cyd ac i wneud ceisiadau ariannol gydag eraill ar gyfer prosiectau addas. Am drafodaeth pellach mae croeso i chi gysylltu ag **Yveline Hands** ar **0845 605 0115** (estyniad 105) neu [Yveline.Hands@NWCrossroads.org.uk](mailto:Yveline.Hands@NWCrossroads.org.uk)

## RHWYDWAITH IECHYD, GOFAL CYMDEITHASOL A LLES NESAF

Cynhelir y digwyddiad nesaf ar Ddydd Lau Ionawr 20fed 2011 am 10 o'r gloch y bore yng Nghanolfan Hamdden Glaslyn ym Mhorthmadog. Y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles nesaf 2011-2014 fydd prif ffocws y digwyddiad yma. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â **Sioned Larsen** ar **01286 672626** neu [sioned@mantellgwynedd.com](mailto:sioned@mantellgwynedd.com)

## GWOBRAU'R GYMRAEG MEWN GOFAL IECHYD

Bwriad Gwobrau'r Gymraeg mewn Gofal Iechyd yw gwella'r ddarpariaeth ddwyieithog mewn gofal iechyd i'r cyhoedd a'r cleifion. Diben y Gwobrau yw codi ymwybyddiaeth o lwyddiannau'r gwasanaeth wrth ddarparu gofal dwyieithog, annog syniadau arloesol, a chodi proffil pwysigrwydd gwasanaeth dwyieithog drwy rannu arfer da ar draws Cymru. Am fwy o wybodaeth ewch ar [www.wales.nhs.uk/cymraeg](http://www.wales.nhs.uk/cymraeg)



## Cynghrair Cyflyrau Tymor Hir De Gwynedd

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar **Ddydd Llun Chwerfor 14** yn y **Ganolfan Hamdden Glan Wnion, Dolgellau** am **10 y bore**. Bydd pwyslais y cyfarfod ar drafod a chytuno ar y ffordd ymlaen i'r Cynghrair i'r dyfodol. Am fwy o wybodaeth mae croeso i chi gysylltu â **Sioned** ar **01286 672626**

## Grant Dan Arweiniad Pobl Ifanc Gwynedd

# GwirVol

Ar y 19eg o Hydref, daeth y Panel Dyrannu Grantiau at ei gilydd i edrych ar y ceisiadau a dderbyniwyd ar gyfer yr ail rownd Grant Dan Arweiniad Pobl Ifanc 2010-11. Roedd 4 cais yn llwyddiannus yn y rownd yma.

Pwyslais mawr y grant yw cefnogi prosiectau gwirfoddoli bach a gynhelir ac a arweinir gan bobl ifanc (16-25 oed) yng Ngwynedd, a chroesewir ceisiadau ar gyfer y ddwy rownd sydd ar ôl:-

- 3ydd rownd - 30ain o Dachwedd 2010
- 4ydd rownd - 31ain o Ionawr 2011

Am becyn cais a rhagor o wybodaeth cysylltwch â **Mirain Roberts** ym Mantell Gwynedd ar **01286 672626** neu [mirain@mantellgwynedd.com](mailto:mirain@mantellgwynedd.com).

# Gwirfoddolwyr y Mileniwm - Llwyddiannau

Da iawn i'r llu o wirfoddolwr ifanc sydd wedi ennill cydnabyddiaeth am wirfoddoli drwy gynllun Gwirfoddolwr y Mileniwm. Braff iawn oedd cael dathlu llwyddiannau rhai ohonynt yn y Prom Gwobrwyo, a gynhaliwyd am y tro cyntaf eleni, yn Hafan y Môr ar 12fed Tachwedd fel rhan o Wythnos Ni.

### Tystysgrif 50 awr o wirfoddoli.

Robyn Clement, Lisa Jones, Sian Jones, Sophie Owen, Saran Henderson.

### Tystysgrif 100 awr o wirfoddoli.

Liam Williams, Non Lloyd Jones, Ryan

Ninnes, Hanna Povey, Neil Jones, Kirsty Hodkinson, Gethin Pritchard, Christopher Roberts, Nia Medi Jones, David Wyn Williams, Kate Ann Jones, Ryan Alexander Semmens.

### Gwobr Rhagoriaeth am 200 awr o wirfoddoli

Gwenno Edwards, Ruth Shephard.

Mwy o wybodaeth am llwyddiannau gwirfoddolwyr ifanc ar ein gwefan

[www.mantellgwynedd.com](http://www.mantellgwynedd.com)



Sarah, Hanna, Nia a Saran - prom achredu



Kirsty Hodkinson a Mirain Roberts - prom achredu



Miran Roberts a Ryan Ninnes - prom achredu

Copi o newyddion a gwybodaeth ddiweddaraf i Gymru gan:  
**Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)** ewch i'r adran **Newyddion** ar wefan  
Mantell Gwynedd - [www.mantellgwynedd.com](http://www.mantellgwynedd.com)

## Hyfforddiant i Wirfoddolwyr

Manteisiodd dros 100 o wirfoddolwyr ar y ddarpariaeth o 4 cwrs am ddim yn ystod yr wythnosau diwethaf. Dau gwrs Cymorth Cyntaf Brys yn hynod o boblogaidd ynghyd â chwrs Hylendid Bwyd Sylfaenol a chwrs hwyliog ar ddatblygiad personol drwy "Feddwl tu allan i'r bocs". Llongyfarchiadau i bawb wnaeth lwyddo i ennill tystysgrifau a diolch yn fawr i bawb fynychodd y cyrsiau a'u gwneud yn ddiwrnodau mor llwyddiannus. Os oes gennych syniadau am hyfforddiant i wirfoddolwyr yn y dyfodol - gadewch i ni wybod.

## EILIAD GYDA MUDIAD

### CIL De Gwynedd

#### Amcanion:

Gwella safon bywyd oedolion ag anabledd corfforol, lleihau arwahanrwydd, dibyniaeth a cheisio hwyluso'r broses o symud tuag at fywyd mwy annibynnol.

Faint o wirfoddolwyr sydd gennych yn eich cynorthwyo ar hyn o bryd:

12 – 15

Nodwch rai tasgau mae gwirfoddolwyr yn eu gwneud i gynorthwyo'r mudiad:

- 1) Cynorthwydd dosbarth
- 2) Cymorth gweinyddol/derbynfia
- 3) Gyrru
- 4) Glanhawyr
- 5) Gofalwyr i bobl anabl

Sut ydych yn recriwtio gwirfoddolwyr?

Unigolion wedi eu cyfeirio gan asiantaethau fel Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd; Canolfan Waith; Agoriad. Unigolion yn dod o'r gymuned leol.

#### Uchafbwyntiau

Mae gweld unigolion anabl yn symud yn eu blaenau drwy gynyddu hyder a hapusrwydd, gwirfoddoli, mynychu hyfforddiant a digwyddiadau cymunedol a dechrau gweithio yn bositif iawn i bawb.

Cynlluniau newydd ac i'r dyfodol:

- Cynllun Cyfnewid Cyfarpar - menter gymdeithasol sy'n galluogi pobl i gyfnewid offer yn dilyn newid mewn sefyllfa. Gall hyn olygu fod cyfarpar yn cael ei ail-gylchu neu eu gwerthu. Hefyd mae cyfarpar newydd ar gael o swyddfa CIL neu o'r we. Mae hyn yn datblygu cyfleoedd gwirfoddoli newydd o fewn y mudiad.
- Tŷ Gelliwig, Porthmadog - man cartrefol i deuluoedd gael mynd ar eu gwyliau ac i gynnig ysbaid i bobl anabl Gwynedd. Mae digon o le yn y tŷ i 6 person anabl a 6 gofalwr.

## Cyfleoedd Gwirfoddoli yn brin!

Os ydych yn gwybod am fudiad mawr neu fach yn eich cymuned a fyddai'n falch o gael help llaw i gynnal eu gwasanaeth neu i drefnu digwyddiadau ayb – gadewch i ni wybod. Byddem yn falch iawn o'ch helpu drwy'r broses o recriwtio a chefnogi gwirfoddolwyr yn llwyddiannus.

## Diwrnod Gwneud Gwahaniaeth - Siop Wirfoddoli yng Nghanolfan Deiniol Bangor

Pob blwyddyn mae miloedd o wirfoddolwyr yn cymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau yn ystod y diwrnod arbennig yma ar ddiwedd mis Hydref ar draws y wlad. Eleni ein gweithgaredd ni oedd llogi siop ym Mangor am yr wythnos er mwyn recriwtio gwirfoddolwyr a rhannu gwybodaeth. Diolch i'r holl fudiadau wnaeth ymuno â ni yn ystod yr wythnos.



Simon o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn adeiladu wal gerrig sych fel arddangosfa yn y siop.

# Wythnos Ni – Dathlu Plant a Phobl Ifanc Gwynedd

Cynhaliwyd Wythnos Plant a Phobl Ifanc Gwynedd am yr eilwaith eleni rhwng yr 8 a 14 o Dachwedd gyda digwyddiadau amrywiol yn cael eu cynnal ar hyd a lled Gwynedd. Trefnwyd yr wythnos gan Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc Gwynedd ac fe'i lanswyd yn swyddogol ar ddydd Gwener, 8fed o Hydref gyda'r brif neges fod Gwynedd yn lle da i blant a phobl ifanc ddatlu, llwyddo a mwynhau.

Dywedodd Iwan Trefor Jones, Cadeirydd Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Gwynedd: "Roedd digwyddiad y llynedd yn llwyddiant ysgubol. Bydd Wythnos Ni yn gyfle i hyrwyddo'r gwaith arloesol sy'n cael ei gyflawni wrth ymateb i anghenion plant a phobl ifanc Gwynedd."

Dewiswyd themâu penodol ar gyfer pob diwrnod yn ystod yr wythnos gydag amryw o ddigwyddiadau ar gael i blant a phobl ifanc, ynghyd â chyfle i ddangos ac i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau a'r cyfleon sydd ar gael



iddynt. Bu Eleanor Marks, Cyfarwyddwraig Isadran Cymunedau ar ran y Dirprwy Weinidog Dros Blant Huw Lewis, yn Nhrawsfynydd ar gyfer y Gynhadledd Taclo Tlodi Plant Yng Ngwynedd ar ddydd Llun 8fed o Dachwedd. Roedd yna Gynhadledd Gyrfaoedd ym Mangor ar ddydd Mawrth a bu Gŵyl Hwyl lwyddiannus iawn ar gyfer pobl ifanc a disgyblion blwyddyn 9 Gwynedd yng Nglynllifon ar y dydd Mercher. Daw'r wythnos i ben gyda noson o ddatlu llwyddiant pobl ifanc sydd wedi derbyn achrediaid yn Hafan y Môr, Pwllheli, ar y nos Wener.

## Rhwydwaith Plant a Phobl Ifanc

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Rhwydwaith ar y 5ed Dachwedd yng Nghanolfan Talysarn. Mynychodd dros 30 o aelodau y cyfarfod pwysig hwn gyda'r pwyslais ar y Strategaeth Tlodi Plant a thrafodaethau yn y newidiadau arfaethedig yng nghronfa ariannol Cymorth.

Diweddariad cronfa Cymorth Yn unol â'r Strategaeth Tlodi Plant mae newidiadau mawr ar droed yn y modd y mae gwasanaethau a mudiadau yn cael eu hariannu drwy gronfa Cymorth. Bydd cronfa Cymorth fel ag y mae yn dod i ben a bydd cronfa 'Teuluoedd yn Gyntaf' yn dod i rym fydd yn ymgorffori egwyddorion newydd i sicrhau fod gwasanaethau a mudiadau yn ffocysu ar y teulu.

Gwahoddwyd Darren Griffiths, Rheolwr Strategol Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Gwynedd, i'r Rhwydwaith i drafod y newidiadau arfaethedig fydd yn cael effaith sylweddol ar fudiadau trydydd sector. Mae

grŵp tasg annibynol wedi'i sefydlu i drafod ceisiadau Cymorth i'r dyfodol ac i ddadgomiynu gwasanaethau cyfredol. Bydd Mantell Gwynedd yn cyd-weithio'n agos â'r Bartneriaeth Strategol ac yn cadw llygad barcud ar y newidiadau.

## Croeso

Ffarwelwyd ag Ann Vaughan Jones dros yr haf fel yr Hwylusydd Plant a Phobl Ifanc ym Mantell Gwynedd. Penodwyd Carwyn Humphreys fel yr Hwylusydd newydd ym mis Gorffennaf.

Cafodd dridiau o anwytho a chydweithio ag Ann cyn iddi hi ymadael ddechrau fis Awst ac mae ef bellach wedi setlo yn ei swydd newydd.

Llongyfarchiadau iddo ar ei benodiad a gobeithio y bydd yn hapus iawn yn ein plith.

*Carwyn Humphreys*

## Newyddion

### PEN-BLWYDD HAFAN

Ar nos lau 21 o Hydref 2010 bu i bobl ifanc a staff Gisda ddatlu pen-blwydd arbennig Hafan, yr hostel yng Nghaernarfon. Mae Hafan wedi darparu llety a chefnogaeth i bobl ifanc bregus ers 21 o flynyddoedd. Bu i aelod staff, Lynda Roberts, ysgrifennu cerdd ar gyfer yr achlysur sy'n crynhoi'r hyn mae pawb yn ei deimlo am yr hostel.



## Ymddiriedolaeth Brook

Mae'r ymddiriedolaeth yn dyfarnu grantiau i unigolion a mudiadau sy'n chwilio am gyllid ar gyfer gweithgareddau, prosiectau ac offer, gan roi blaenoriaeth i'r rhai sy'n ei chael yn anodd sicrhau cyllid. Croesewir ceisiadau ar gyfer prosiectau celf a phrosiectau cymdeithasol. Gellir cael mwy o fanylion ar [www.brooktrust.org](http://www.brooktrust.org).

## Cist Gwynedd

Cofiwch am Gronfa Datblygu Gwirfoddol Gwynedd dan ofal Cist Gwynedd, Cyngor Gwynedd. Mae arian cyfalaf a refeniw ar gael i gefnogi prosiectau yn lleol. Am fwy o wybodaeth a phhecyn cais cysylltwch â **Heather Williams** ar **01286 679 153** neu [HeatherWilliams@gwynedd.gov.uk](mailto:HeatherWilliams@gwynedd.gov.uk)

## CRONFA ELUSENNOL HILDEN

Mae Cronfa Elusennol Hilden yn dyfarnu grantiau i brosiectau yn y DU ac mewn gwledydd datblygedig, gyda'r nod o roi sylw i anafantiaid, yn enwedig wrth gefnogi achosion sy'n llai tebygol o ddenu arian cyhoeddus.

Blaenoriaethau ariannu presennol y Gronfa yn y DU yw: digartrefedd; ceiswyr lloches a ffoaduriaid; mentrau cymunedol ar gyfer pobl ifanc 16-25 oed; materion cosb.

Rhoddir blaenoriaeth i elusennau gydag incwm llai na £200,000 y flwyddyn. Diben y rhaglen cyllido Gwledydd Tramor yw helpu datblygiadau cymunedol a mentrau addysgol ac iechyd bychain a chanolig. Am fwy o wybodaeth ewch i <http://hildencharitablefund.org.uk/uk>



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

**Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich Dyfodol**  
Cronfa Gymdeithasol Ewrop

**Europe & Wales: Investing in your Future**  
European Social Fund

## Sefydliad Rayne

Mae'r sefydliad yn cynnig cefnogaeth ariannol yn y sectorau celf, addysg, iechyd a meddygaeth, a lles a datblygiad cymdeithasol. Ymhlith y meysydd sydd o ddiddordeb arbennig i'r sefydliad mae: cyflawni canlyniadau dysgu drwy gyfrwng gwaith arlunwyr a mudiadau celf; datblygu sgiliau rhifedd; a gwella safon byw pobl hŷn. Mae'r mudiad yn croesawu ceisiadau y tu allan i'r meysydd hyn hefyd. Mae ffurflen gais ar gael i'w dadlwytho o wefan y sefydliad a gellir ei chyflwyno drwy e-bost neu drwy'r post ar unrhyw adeg. Mae rhagor o fanylion ar gael gan [www.raynefoundation.org.uk](http://www.raynefoundation.org.uk).

## Cist Gymunedol Gwynedd

Cofiwch mae hyd at £1,000 ar gael i fudiadau a chlybiau yng Ngwynedd ar gyfer datblygu gweithgareddau corfforol a chwaraeon yn y gymuned. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'r **Uned Datblygu Chwaraeon** ar **01758 704 010**

## Y Porth Ymgysylltu

Mae cyfle i gyflwyno Holiadur Cyn Cymhwys ar gyfer cynllun Y Porth Ymgysylltu wedi ail agor. Gallwch lawr lwytho dogfennau wrth fynd i wefan Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a dilyn y linc. Y dyddiad cau yw 24ain Ionawr 2011. Os ydych â diddordeb mewn cyflwyno Holiadur Cyn Cymhwys cysylltwch â **Carys Williams** yn swyddfa Mantell Gwynedd yng Nghaernarfon ar **01286 672626** neu e-bost [carys@mantellgwynedd.com](mailto:carys@mantellgwynedd.com) Balch yw cyhoeddi fod tri chytundeb bellach yn weithredol yng Ngwynedd:

Mae Menter y Felin Uchaf yn rhedeg cynllun ym Mhen Llyn yn cynnig hyfforddiant mewn sgiliau amgylcheddol - am fwy o wybodaeth cysylltwch â **Dafydd Davies Hughes**, Menter Y Felin Uchaf **01758 780280** neu e-bost [felinuchaf@tiscali.co.uk](mailto:felinuchaf@tiscali.co.uk).

Hefyd mae Partneriaeth Awyr Agored Gogledd Orllewin Cymru wedi derbyn cytundeb i weithio gyda phobl ifanc yn cynnig cyrsiau byr mewn sgiliau awyr agored. Am fwy o wybodaeth am hyn cysylltwch ag **Owain Williams** ym **Mhlas y Brenin 01690 720106** neu e-bost [owain.williams@partneriaeth-awyr-agored.co.uk](mailto:owain.williams@partneriaeth-awyr-agored.co.uk) Ac yn drydydd bydd Ymddiriedolaeth Y Tywysog yn rhedeg cynllun yn cynnig sesiynau blasu ym maes adeiladu i gyflwyno pa gyfleoedd sydd ar gael yn y maes hynny. Gallwch gael mwy o wybodaeth drwy gysylltu â **Helen Stoker** ar **01745 350051** neu e-bost [helen.stoker@princes-trust.org.uk](mailto:helen.stoker@princes-trust.org.uk)

## Hyfforddiant Tendro i ddod

Bydd Carwyn Humphreys, Hwylusydd Plant a Phobl Ifanc, Mantell Gwynedd yn trefnu sesiwn hyfforddiant ar Sut i Dendro gyda Menter a Busnes yn fuan yn y flwyddyn newydd.

Dyddiad i'w gyhoeddi yn fuan.

## Rhaglen 'Cyrsiau i Gymunedau' (CCC)

Hyfforddiant fforddiadwy ar gyfer grwpiau cymunedol a gwirfoddol a ddarperir drwy bartneriaeth rhwng Cyngorau Gwirfoddol Sirol (CGS), Canolfannau Gwirfoddoli a CGGC (WCVA) ar draws Gogledd Cymru

Dyddiad	Lleoliad	Hyd
LEAN a Sicrhau ansawdd		
23 Tach. 2010	Neuadd Morfa, Rhyl	½ diwrnod
Sut i Dendro		
24/25 Tach. 2010	MYM, Aberystwyth	2 ddiwrnod
Gweinyddu Digwyddiad		
25 Tach 2010	Neuadd Morfa, Rhyl	1 diwrnod
Amser i Bobl Ifanc		
7 Rhag. 2010	Neuadd Morfa, Rhyl	1 diwrnod
Hwyluso Uwch		
19 Ionawr 2011	WCVA, Aberystwyth	1 diwrnod
Rheoli Risg ar draws eich Mudiad		
29 Mawrth 2011	Plas Pentwyn, Wrecsam	½ diwrnod
Cyflwyniad i Adrodd Straeon mewn Sefydliadau		
03 Mawrth 2011	AVOW, Wrecsam	1 diwrnod
Cyllidebu Cyfranogol		
30 Mawrth 2011	Cartrefi Cymru, Bangor	1 diwrnod

I wneud ymholiadau cyffredinol ynghylch Rhaglen Cyrsiau ar Gymunedau Cymru, cysylltwch â **Lein Gymorth CGGC (WCVA)** ar **0800 2888329** neu **help@wcva.org.uk**

## Cofiwch!!

Mae rali NA I'R TORIADAU yn cael ei chynnal yng Nghaernarfon ar Ddydd Sadwrn, Rhagfyr 4ydd.

Mae 50% o arian y Trydydd Sector yng Nghymru yn dod o'r Sector Gyhoeddus felly mae unrhyw doriadau yn y Sector Gyhoeddus yn mynd i gael effaith uniongyrchol ar y Trydydd Sector. Bydd BETHAN RUSSELL WILLIAMS, Prif Swyddog Mantell Gwynedd yn siarad ar ran y Trydydd Sector yn y RALI. DEWCH I GEFNOGI'R RALI AR FAES CAERNARFON AM 11 O'R GLOCH BORE SADWRN Y 4YDD O RAGFYR 2010.

## Cael blas ar ddysgu am ddim

Gall mudiadau'r trydydd sector sy'n cefnogi pobl ddi-waith ar raglenni cyflogaeth a sgiliau gysylltu eu gwaith yn awr â chyfluoedd addysgol a gynigir yn rhad ac am ddim gan y Brifysgol Agored.

Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn awyddus i ddatblygu partneriaethau cymunedol gyda mudiadau gwirfoddol a mentrau cymdeithasol i gefnogi pobl ar fudd-daliadau ac incwm isel a'u harwain at addysg.

Dyweddoddy Gayle Hudson, Swyddog Datblygu gyda'r Brifysgol Agored, wrth WCVA: 'Drwy ein Rhaglen Openings ceir amrywiaeth o gyrsiau sydd wedi'u datblygu'n arbennig ar gyfer y rheini sy'n newydd i astudio, y rheini sy'n dychwelyd i addysg neu bobl nad ydynt o bosib wedi ennill dim cymwysterau ffurfiol yn yr ysgol.

'Eu nod yw helpu pobl i gael blas ar bynciau, datblygu sgiliau dysgu a magu hyder. Maent yn llwybrau dilyniant delfrydol o ddysgu yn y gymuned i addysg fwy ffurfiol a gallent fod yn gamau datblygu delfrydol o brosiectau megis y Porth Ymgysylltu a'r Farchnad Lafur Trosiannol.

'Rydym yn awyddus i weithio gyda chymunedau lleol a mudiadau'r trydydd sector i helpu i ddatblygu sgiliau a dyheadau. Efallai y gallwn gynnig sesiynau gwybodaeth a sesiynau blasu am ddim hefyd.'

Mae cyrsiau Rhaglen Openings y Brifysgol Agored yn para am 20 wythnos ac yn dechrau pedair gwaith y flwyddyn ym mis Medi, mis Tachwedd, mis Mawrth a mis Mehefin.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â **Gayle Hudson** (Gogledd a Chanolbarth Cymru) ar **01691 671648** neu **g.hudson@open.ac.uk** neu ewch i **www.open.ac.uk/openings**

## RHWYDWAITH IECHYD, GOFAL CYMDEITHASOL A LLES NESAF

Cynhelir y digwyddiad nesaf ar Ddydd Iau Ionawr 20fed 2011 am 10 o'r gloch y bore yng Nghanolfan Hamdden Glaslyn ym Mhorthmadog. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â **Sioned Larsen** ar **01286 672626** neu **sioned@mantellgwynedd.com**

Os hoffech drafod anghenion eich mudiad o ran hyfforddiant cysylltwch â **Delyth Vaughan** **01286 672626**, **delyth@mantellgwynedd.com**. Neu i gael rhagor o wybodaeth am hyfforddiant cysylltwch ag **Ellen ap Dafydd** **01341 422575** **EllenapDafydd@mantellgwynedd.com**